**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**15 MAWRTH 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Iau, 15 Mawrth 2018

**YN BRESENNOL:** **Cynghorydd Clive Carver (Cadeirydd)**
Cynghorwyr Haydn Bateman, Bob Connah, Paul Cunningham, Patrick Heesom, Andrew Holgate, Dave Hughes, Paul Johnson, Richard Jones, Mike Lowe, Hilary McGuill, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Andy Williams ac Arnold Woolley

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr: Christine Jones a David Wisinger yn bresennol fel arsylwyr

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Aaron Shotton, Arweinydd ac Aelod Cabinet Cyllid; Aelod Cabinet Rheolaeth Gorfforaethol ac Asedau; Prif Weithredwr; a Rheolwr Cyllid.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 72. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni dderbyniwyd dim.

## 73. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2018.

Materion yn codi:

Cofnod Rhif 66 – Cyfeiriodd y Cynghorydd Paul Cunningham at drafodaeth a gafwyd am archwiliad cydweithio Sir y Fflint a gofynnodd a oedd unrhyw gynnydd i'w adrodd. Dywedodd y Prif Weithredwr fod yn Cyngor yn trafod â Llywodraeth Cymru a byddai'r canlyniad yn cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor pan yn hysbys.

Gwnaeth y Cynghorydd Arnold Woolley sylw ar y broblem o dyllau mewn ffyrdd a gofynnodd a oedd modd darparu gwybodaeth am gost yr atgyweiriadau yn Sir y Fflint. Gofynnodd a fyddai'r cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwelliannau priffyrdd lleol yn ddigonol i gwmpasu'r gost neu a fyddai 'bwlch' y byddai'n rhaid i'r Awdurdod ei gyllido. Cynghorodd y Prif Weithredwr fod peth o'r gwaith hwn yn cael ei ariannu gan y Cyngor fel rhan o gynnal a chadw rheolaidd, gydag ansawdd y ffyrdd ar ôl y gaeaf yn cael eu hasesu gan y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) a'i dîm, a bod gwaith yn cael ei flaenoriaethu i fynd i'r afael â'r atgyweiriadau mwyaf brys. Cyfeiriodd hefyd at y cyllid 'un tro' o £1.472m a dderbyniodd yr Awdurdod gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwelliannau priffyrdd lleol.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y gwaith parhaus drwy CLILC ac adroddodd bod Sir y Fflint, ynghyd ag awdurdodau, wedi gwneud cais i Lywodraeth Cymru am gyllid ychwanegol yn dilyn difrod i ffyrdd ar ôl tywydd gaeafol. Dywedodd y byddai manylion am gais Sir y Fflint (am £200k neu fwy) yn cael eu dosbarthu maes o law.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Woolley at y cais gan y Cynghorydd Paul Johnson i ofyn a oedd modd ceisio unrhyw gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i atgyweirio ffyrdd gwledig a oedd wedi'u difrodi gan draffig wedi'i ddargyfeirio o ganlyniad i waith ar yr A55. Eglurodd y Prif Weithredwr fod hwn yn rhan o drafodaethau parhaus yn ymwneud â Sir y Fflint yn cydweithio â Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, ac y byddai'r canlyniad yn cael ei adrodd yn ôl maes o law.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Woolley at y cynnig gan y Cynghorydd Richard Jones i'r Pwyllgor dderbyn adroddiad yn amlinellu effeithiau'r gwariant cyfalaf (cynlluniau newydd i'w cymeradwyo) a gofynnodd pryd fyddai hyn ar gael i'r Pwyllgor. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y byddai ar gael yn y cyfarfod ym mis Ebrill.

Mynegodd y Cynghorydd Hilary McGuill bryder o ran yr angen i ail wneud atgyweiriadau ar arwynebau ffyrdd gan fod yr un tyllau yn ail ymddangos. Cwestiynodd a oedd hyn oherwydd y deunyddiau a ddefnyddiwyd neu a oedd y gwaith a wnaed o safon annigonol. Gwnaeth yr Aelodau sylw ar y gwaith atgyweirio a wnaed gan gontractwyr ar ran cwmnïau cyfleustodau gan ofyn a oedd y gwaith wedi'i archwilio ar ôl ei gwblhau. Cydnabu'r Prif Weithredwr y pwyntiau a wnaethpwyd a dywedodd fod hwn yn fater i'w ystyried ymhellach gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd.

Ail-bwysleisiodd y Cynghorydd Richard Jones y pryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd McGuill a dywedodd y dylai atgyweiriadau bara'n hirach nag ychydig wythnosau.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Dave Hughes y tîm Strydwedd am y gwaith a wnaed i atgyweirio tyllau yn y ffyrdd, yn benodol o ganlyniad i'r tywydd garw a dywedodd, mewn rhai achosion, y gwnaethpwyd atgyweiriadau brys tan yr oedd modd gwneud atgyweiriadau parhaol.

Cofnod Rhif 68 – Dywedodd y Cynghorydd Richard Jones nad oedd wedi derbyn ymateb i'w gais am eglurder ar y ffigyrau cymharol ar gyfer gwariant gweithwyr asiantaeth a throsiant nad yw'n ymwneud ag ysgol o'r flwyddyn flaenorol. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad chwarterol nesaf.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y cofnodion yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd; a

(b) Bod pryderon y Pwyllgor am dyllau ffyrdd sy'n ailymddangos a difrod i arwynebau ffyrdd o ganlyniad i waith haearn wedi'i osod yn is gan

gwmnïau cyfleustodau, yn cael eu trosglwyddo i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Yr Amgylchedd fel rhan o'i raglen waith.

## 74. ADRODDIAD MONITRO CHWARTER 3 CYNLLUN Y CYNGOR AR GYFER 2017/18

Cyflwynodd y Prif Weithredwr Adroddiad Monitro Cynllun Chwarter 3 y Cyngor 2017/18. Darparodd wybodaeth gefndirol a chynghorodd bod yr adroddiad monitro ar gyfer Cynllun y Cyngor 2017/18 yn adroddiad cadarnhaol gydag 81% o'r gweithgareddau yn gwneud cynnydd da yn ôl yr asesiad, a 69% yn debygol o gyflawni'r canlyniad a ddymunwyd. Roedd y dangosyddion perfformiad yn dangos cynnydd da gydag 84% yn cyfarfod neu bron a chyfarfod targed y cyfnod. Roedd y risgiau hefyd yn cael eu rheoli'n llwyddiannus gyda'r mwyafrif yn cael eu hasesu'n risgiau cymedrol (67%) neu'n fân risgiau (10%).

Adroddodd y Prif Weithredwr ar y dangosydd perfformiad a oedd yn dangos statws coch ar gyfer y perfformiad presennol yn erbyn targed a'r risgiau mawr i'r Pwyllgor fel y manylir yn yr adroddiad.

Blaenoriaeth: Cyngor sy'n Gwasanaethu – graddfa'r her ariannol

Blaenoriaeth: Cyngor Cefnogol – argaeledd cyllid digonol i ddarparu blaenoriaethau allweddol.

Atgoffodd y Prif Weithredwr y Pwyllgor y byddai, fel Pwyllgor Trosolwg a Chraffu arweiniol ar gyfer monitro perfformiad, yn derbyn pob arolwg chwarterol yn y dyfodol, yn hytrach na dim ond y rheiny'n ymwneud â materion o fewn cylch gwaith y pwyllgor.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y byddai gweithdy 'Deall Adroddiadau Perfformiad' yn cael ei gynnal i'r holl Aelodau ar ddiwedd mis Mehefin / ar ddechrau mis Gorffennaf, i gysylltu ag adroddiad alldro Cynllun y Cyngor i'r Cyngor ar 19 Mehefin.

Gofynnodd y Cynghorydd Arnold Wooley a fyddai modd i adroddiadau yn y dyfodol gynnwys meysydd o danberfformiad hefyd a dywedodd y byddai hyn wedi cynorthwyo â deall y ffigyrau a gyflwynwyd ym mharagraff 1.04 yr adroddiad. Cyfeiriodd hefyd at y ffigyrau a gyflwynwyd ym mharagraff 1.06 yr adroddiad, yn ymwneud â dadansoddiad y perfformiad presennol, a dywedodd nad oedd y ffigyrau hyn yn cysoni â'r ffigyrau ym mharagraff 1.04. Rhoddodd y Prif Weithredwr eglurhad a dywedodd y byddai'n darparu mwy o wybodaeth i aelodau ar y dadansoddiad.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi Adroddiad Monitro Cynllun Chwarter 3 y Cyngor 2017/18; a

(b) Bod y Pwyllgor, fel pwyllgor arweiniol ar gyfer materion perfformiad, yn ail gadarnhau ei gais i dderbyn holl wybodaeth chwarterol Cynllun y Cyngor ar gyfer 2018/19 ac wedi hynny.

**75. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2017/18 (MIS 10)**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid adroddiad i ddarparu adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw 2017/18 (Mis 10). Dywedodd bod yr adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw wedi'i gyflwyno i'r Cabinet ar 23 Ionawr 2018 ac ynghlwm wrth yr adroddiad.

Eglurodd y Rheolwr Cyllid bod yr adroddiad misol yn darparu'r sefyllfa ddiweddaraf o ran monitro'r gyllideb refeniw yn 2017/18 ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r sefyllfa, yn seiliedig ar incwm a gwariant gwirioneddol ym mis 10 y flwyddyn ariannol ac yn rhagamcanu beth fyddai sefyllfa'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol pe bai popeth yn aros yn gyfartal.

Adroddodd y Rheolwr Cyllid ar ragamcan o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai fel y manylwyd yn yr adroddiad. Adroddodd hefyd ar y prif ystyriaethau o ran y sefyllfa ym Mis 10 a chyfeiriodd at sefyllfa gyffredinol Cronfa'r Cyngor, y rhagamcanion diweddaraf yn ystod y flwyddyn, olrhain risgiau a materion sy'n dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn, cynnal a chadw yn y gaeaf, chwyddiant, arian wrth gefn a balansau. Dywedodd y Rheolwr Cyllid, o ran Cronfa'r Cyngor, fod balans y gronfa hapddigwyddiad ar 31 Mawrth 2018 yn £8.119m er y gostyngodd hyn i £5.714m wrth ystyried y cyfraniadau a gytunwyd ar gyfer cyllideb 2018/19. Dywedodd fod y balans cloi a ragamcanir ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai ar 31 Mawrth 2018 yn £1.081m.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag arbedion effeithlonrwydd i'w cyflawni yn 2017/18, darparodd y Prif Weithredwr ddiweddariad o ran y sefyllfa bresennol. Rhoddodd sylw hefyd i ddau achos o bwysau annisgwyl ar y gyllideb yn 2017/18 a 2018/19:- y pwysau ar y gyllideb cynnal a chadw yn y gaeaf, a Llywodraeth Cymru'n tynnu'r Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig o oddeutu £175K yn ei ôl (o 2018/19) a oedd yn cefnogi Saesneg fel Ail Iaith ac anghenion dysgu teithwyr.

Mewn perthynas â'r mater o gynnal a chadw'r gaeaf, gofynnodd y Cadeirydd a oedd modd i'r Awdurdod adennill y costau graenu priffyrdd. Eglurodd Swyddogion bod y gost o raenu'r A55 yn adenilladwy.

Wrth wneud sylw ar reoli risgiau a materion sy'n dod i'r amlwg, awgrymodd y Cynghorydd Richard Jones y dylid lobïo Llywodraeth Cymru i ddarparu ffynhonnell ganolog o gyllid yn hytrach na phob awdurdod lleol yn gorfod ymdopi ar eu pen eu hunain. Diolchodd i bawb am eu hymdrechion yn ystod y broses o osod y gyllideb a arweiniodd at ryddhau mwy o arian i gefnogi ysgolion.

Ail-bwysleisiodd y Cynghorydd Jones ei wrthwynebiad i'r newid ym mholisi cyfrifo i Isafswm Darpariaeth Refeniw. Sicrhaodd y Prif Weithredwr y Pwyllgor fod penderfyniad y Cyngor ynglŷn ag Isafswm Darpariaeth Refeniw wedi'i wneud yn seiliedig ar y cyngor a gafwyd.

Wrth gyfeirio at yr ail argymhelliad ar dudalen 42 yr adroddiad, ceisiodd y Cynghorydd Woolley sicrwydd bod gan yr Awdurdod drosolwg da i sicrhau bod unrhyw broblem ariannol yn cael ei chanfod cyn gynted â phosibl mewn perthynas â gweithrediad dulliau darparu gwasanaeth gwahanol. Dywedodd y Prif Weithredwr fod Aura a NEWydd yn cwblhau eu blwyddyn gyntaf o fasnachu a

sicrhaodd yr Aelodau eu bod yn cysylltu’n agos gyda’r Cyngor. Pwysleisiodd hefyd fod gan y ddau sefydliad fyrddau effeithiol i oruchwylio eu gweithgareddau.

Yn ystod trafodaethau, soniwyd am y gost o leoliadau y tu allan i’r sir yn ogystal â’r costau cysylltiedig a thymor hir. Dywedodd y Cynghorydd Aaron Shotton nad oedd digon o ddarpariaeth sector cyhoeddus a chyfeiriodd at y materion hanesyddol a diwylliannol a oedd yn gysylltiedig â gofal preswyl. Dywedodd bod angen gwneud mwy ar draws Gymru o ran ymyrraeth, cyllid ac ailfodelu darpariaeth, a bod rhaid i’r Awdurdod hefyd edrych yn fewnol ar y gwasanaethau yr oedd yn eu darparu i sicrhau eu bod yn addas i’r diben. Ychwanegodd y Prif Weithredwr y dylai Llywodraeth Cymru gynnal cronfa genedlaethol hyblyg i gefnogi cynghorau mewn angen.

Gwnaeth y Cynghorydd Hilary McGuill sylw ar y materion cymhleth ac amrywiol a oedd yn gysylltiedig â lleoliadau y tu allan i’r sir a dywedodd bod angen canfod cyllid yn gynnar.

Awgrymodd y Cynghorydd Richard Jones y dylid cysylltu ag awdurdodau lleol eraill i sefydlu unrhyw orwariant mewn addysg a gofal cymdeithasol gyda’r bwriad o lobïo Llywodraeth Cymru i sefydlu cronfa ganolog i fynd i’r afael ag anghenion cyllido.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Paul Johnson at yr wybodaeth ar dudalen 54 yr adroddiad yn ymwneud â rheoli plâu a mynegodd bryder nad oedd y targedau blaenorol wedi bod yn rhai realistig. Gofynnodd i osod targedau incwm realistig o fewn Rheoli Plâu.

Gwnaeth y Cynghorydd Richard Jones sylw ynghylch rheoli plâu a gofynnodd ai’r preswylwyr lleol neu'r datblygwr oedd yn gyfrifol am dalu’r ffioedd i gael gwared ar blâu o ganlyniad i ddatblygiad ar safle. Dywedodd y Prif Weithredwr fod hwn yn syniad diddorol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Haydn Bateman o ran y gorwariant o £2.200m a ragamcanwyd ar bortffolio Strydwedd a chludiant, dywedodd y Rheolwr Cyllid bod swm o £675K wedi’i gredydu i’r gyllideb fel elfen GHA Coaches o’r gorwariant. Cadarnhawyd bod y Cyngor wedi cael y cerbydau roedd yn berchen arnynt ac oedd yn cael eu gwerthu.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, yn ystod y drafodaeth, ei fod wedi nodi’r sylwadau a wnaed am leoliadau y tu allan i’r sir a sut y gellir rheoli’r gorwariant ar y lleoliadau hyn ar draws Gymru yn well, ac yn ogystal, nododd y dylid gosod targedau incwm realistig o fewn Rheoli Plâu. Gofynnodd a ddylid dwyn y materion hyn ger bron y Cabinet fel materion a oedd yn pryderu’r pwyllgor hwn.

Gofynnodd y Cadeirydd i’r Aelodau bleidleisio ar yr argymhellion yn yr adroddiad a phan gafwyd pleidlais, cymeradwywyd hyn. Gofynnodd y Cynghorydd Patrick Heesom am gofnodi ei fod ef wedi ymatal rhag pleidleisio.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi’r adroddiad Monitro’r Gyllideb Refeniw 2017/18 Mis 10

ac yn cadarnhau, ar yr achlysur hwn, bod y materion y mae'n dymuno eu cyflwyno ger bron y Cabinet yn bryderon am leoliadau y tu allan i'r sir, sut y gellir rheoli gorwariant yn well ar draws Gymru a gosod targedau incwm realistig ar gyfer Rheoli Plâu.

## 76. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol i'w hystyried. Cynghorodd bod yr eitemau ychwanegol canlynol yn cael eu cyflwyno i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 19 Ebrill 2018.

- adroddiad rhagolwg ariannol (a gyflwynir hefyd i'r Cabinet)
- adroddiad ar effeithiau gwariant cyfalaf (cynlluniau newydd i'w cymeradwyo)

Cytunwyd cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel y'i cyflwynwyd, gyda'r diwygiadau a restrwyd uchod.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel y'i cyflwynwyd, yn cael ei chymeradwyo gyda'r diwygiadau a restrwyd uchod; a

(b) Bod y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, gan ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, os bydd angen.

## 77. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 9.30 am a daeth i ben am 10.30 am)

..................................................

**Cadeirydd**